

Gwerth Cymreictod

Awydd y Siopwr am Gynnyrch Cymreig



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



Crynodeb o'r Canfyddiadau

Mae siopwyr Cymru'n credu fod bwyd a diod Cymru o Ansawdd Arbennig (85%) ac yn Blasu'n Arbennig (80%).

Byddai 8 o bob 10 siopwr (78%) bob amser yn prynu cynnyrch Cymreig os fyddai'r pris yn iawn a 44% yn talu mwy am gynnyrch Cymreig.

Mae siopwyr o'r tu allan i Gymru yn credu fod gan Gymru enw da am fwyd a diod o ansawdd da, ac am gefnogi bwyd a diod o Gymru. Byddai 29% yn dymuno gweld mwy o fwya a diod o Gymru yn eu siopau.

Mae Cymru'n cael ei chysylltu mwy â chynnyrch naturiol na Phrydain.

Mae'r cyfle i gynnyrch Cymru dyfu yn sylweddol ac mae cefnogaeth gref ymhlith siopwyr i fwyd a diod o Gymru. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod brand Cymreig yn cyd-fynd yn dda, ac yn gwella'r brand Prydeinig.

Gwerth Cymreictod

Cyd-destun

Mae gan sector blaenoriaeth Bwyd a Diod Cymru darged uchelgeisiol o sicrhau cynnydd o **30%** mewn trosiant i £7bn erbyn 2020. Mae busnesau bwyd a diod Cymreig llwyddiannus sy'n tyfu yn allweddol i gyrraedd y targed.

Tra bo diwydiant Cymru'n gwneud cynnydd cryf tuag at y targed, mae'n wynebu marchnad adwerthu hynod gystadleuol. Mae twf y sector ddisgownt yn ddiweddar wedi cael effaith ddramatig ar ddeinameg y sector adwerthu.

Y Cyfle

Gyda phob adwerthwr yn rhestru rhwng 20-30,000 cynnyrch, mae'r cyfle i dyfu yn sylweddol.

Mae nifer o fusnesau llwyddiannus Cymru'n defnyddio tarddiad Cymreig cryf yn eu brandio, megis Puffin Produce, Blas Y Tir, Edwards o Gonwy a'r Village Bakery i enwi ond ychydig. Hefyd, mae lansiad diweddar Cig Oen Cymru yn Aldi wedi arwain at dwf sylweddol

Cwestiwn allweddol i sector Bwyd a Diod Cymru yw pa werth mae siopwyr yng Nghymru a gweddill Prydain yn ei roi ar Gymreictod?



Yr Ymchwil

Comisiynwyd Category-Insight i gynnal ymchwil cadarn i ateb y cwestiwn hwn.

Cynhaliwyd arolwg ar-lein ymhlith dros 1,000 o siopwyr Prydain, gyda 331 o ymatebion Cymreig pellach i roi hwb i ganlyniadau Cymru a chanfasio stryd i gael ymatebion 318 o siopwyr mewn tri lleoliad yng Nghymru.


Mae'r canlyniadau'n cynnig cipolwg cadarn ar farn y siopwyr (lefel hyder o 95%, gyda chyfwng hyder o +/-3% ar lefel Prydain, a +/-5% i Gymru). Mae'r canlyniadau i'w gweld isod.

Beth yw barn siopwyr Cymru?

Ffafiaeth gref i gynnyrch Cymreig

Mae **78%** o siopwyr Cymru'n dweud y byddent bob amser yn prynu cynnyrch o Gymru os yw'r pris yn iawn, a bron i **90%** o'r rhai a gwestiynwyd ar y stryd yn dweud y byddent bob amser yn dewis cynnyrch Cymreig os na fyddai gwahaniaeth mewn pris.

Byddai'n well gan 8 o bob 10 o siopwyr Cymru brynu Llaeth o Gymru a Chig Oen Cymru, a byddai'n well gan 7 o bob 10 o siopwyr brynu Dŵr, Caws a Menyn o Gymru. Hefyd, byddai'n well gan dros hanner brynu Blodfresych, leir a Phastai o Gymru.



Llaeth

88%



Cig Oen

86%




Dŵr

77%



Caws

77%



Menyn

76%

Mae'r canlyniad drwyddi draw yn dangos y byddai siopwyr Cymru yn hoffi o leiaf dewis o gynnyrch Cymreig yn siopau Cymru. Mae'r canlyniad yn debygol o fod yn wir mewn categorïau eraill o ystyried fod **78%** o siopwyr yn dweud y byddent bob amser yn prynu cynnyrch Cymreig am y pris iawn.

Cefnogi'r economi lleol

Mae cysylltiad cryf rhwng prynu cynnyrch Cymreig a chefnogi'r economi lleol:

- roedd **84%** o'r siopwyr Cymreig yn yr arolwg ar-lein yn hoffi cefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod Cymru
- dywedodd **78%** o'r ymatebwyr ar y stryd fod prynu cynnyrch o Gymru'n helpu'r economi lleol.

Effaith gyfunol nodweddiad ansawdd cryf a chefnogi'r economi lleol sy'n gyrru **74%** o siopwyr Cymru i fod eisiau gweld mwy o fwyd a diod Cymreig yn eu siopau.

Cynnyrch Ffres, Ansawdd a Phris

Yn hierarchaeth y siopwyr, cynnyrch ffres, ansawdd a phris yw'r ffactorau pwysicaf yn y penderfyniad i brynu.



o siopwyr Cymru yn cytuno fod cynnyrch Cymru o **ansawdd da**



o siopwyr yn cytuno fod cynnyrch Cymru'n **blasu'n wych**




yn dweud y byddent yn talu mwy am fwyd a diod o Gymru


Mae gan siopwyr Cymru farn fwy cadarnhaol am fwyd a diod o Gymru, na sydd gan siopwyr Prydain am fwyd a diod Prydain na Chymru.

Bwyta Allan

Pan yn bwyta allan:



yn credu ei bod yn bwysig cael **cynnyrch o Gymru** ar y fwydlen mewn bwytai



yn dweud ei bod yn bwysig cael **cynnyrch o Gymru** ar fwydlenni manau bwyd cyflym



15% o'r rhai sydd byth yn bwyta mewn manau bwyd cyflym yn ystyried gwneud petai cynnyrch o Gymru ar y fwydlen

Beth yw barn siopwyr o'r tu allan i Gymru?

Mae Cymru'n cael ei chysylltu â chynnyrch naturiol

Mae siopwyr Cymru'n gweld bwyd a diod o Gymru fel cynnyrch ffres, naturiol ac o ansawdd arbennig. Serch hynny, ym Mhrydain drwyddi draw, mae mwy o bobl yn cysylltu Cymru â bwyd a diod naturiol (**42%**) na Phrydain (**33%**). Gydag iechyd a chynnyrch ffres yn dueddiadau macro mewn ym maes bwyd a diod, mae'r cysylltiad positif hwn rhwng Cymru a chynnyrch naturiol yn rhinwedd werthfawr i gynnyrch Cymru.



Siopwyr Prydain yn cefnogi bwyd a diod Cymru

Mae siopwyr Prydain (y tu allan i Gymru) yn gefnogol i fwyd a diod Cymru gyda dros hanner yn cytuno fod Cymru yn adnabyddus am fwyd a diod o ansawdd da, a chwarter am gefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod Cymru. Mae bron i 15% am weld mwy o frandiau bwyd a diod Cymru yn y siopau.

Mae Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig (PGI) Cig Oen Cymru yn adnabyddus



Ymhlith siopwyr Prydain y tu allan i Gymru

- Mae **44%** yn dewis Cig Oen Cymru cyn unrhyw gig oen arall.
- Mae **40%** yn cysylltu cig oen â Chymru yn naturiol.
- Pan yn gofyn pam eu bod yn dewis cig oen Cymru, mae'r rhesymau mwyaf poblogaidd yn ymwneud ag ansawdd.

Ymhlith siopwyr Cymru:

- Mae **86%** yn dewis Cig Oen Cymru cyn unrhyw gig oen arall..
- Mae **78%** yn cysylltu cig oen â Chymru yn naturiol.

Mae'r rhain yn ganfyddiadau cadarnhaol i Gig Oen PGI Cymru, gan ddangos ffafriaeth gref gan ddefnyddwyr ledled Prydain. Mae'r dystiolaeth yn cael ei chefnogi gan werthiant adwerthu gwirioneddol. Gwelodd Aldi werthiant cig oen yn codi **25%** wrth newid i werthu cig oen brand Cymreig.

Mae cynnyrch Cymreig arall yn cael cydnabyddiaeth hefyd

Gwelodd yr arolwg hefyd y byddai bron i 1 o bob 5 o siopwyr Prydain yn prynu Menyn Cymreig (22%), Caws Cymreig (18%) a Dŵr Cymreig (17%) o gael y dewis.

Beth mae Cymreig yn ei olygu i siopwyr (Cymru a Phrydain)?

Gwelodd yr arolwg fod ble y caiff bwyd a diod ei gynhyrchu yr un mor bwysig ag ymddangosiad a brand.

Y tu hwnt i gynnyrch ffres, ansawdd a phris, mae'r holl siopwyr (Cymru a Phrydain) yn rhannu'r un farn am 3 prif rinwedd y brandiau Cymreig sy'n gyfarwydd iddynt – sef eu bod o ansawdd gwych, blas arbennig a 'rwy'n hoffi ei fod wedi'i gynhyrchu yng Nghymru'.

Ansawdd
Gwych

Hoffi ei fod
wedi'i
gynhyrchu
yng Nghymru

Cynnyrch â
blas arbennig

Wrth brynu **cynnyrch o Gymru**, mae mwyafrif y siopwyr yn disgwyl fod y cynnyrch wedi'i wneud yng Nghymru a bod y **prif gynhwysion o Gymru**.

A yw Cynnyrch Cymreig ar gael?

Mae **78%** o siopwyr Cymru'n prynu bwyd sydd wedi'i gynhyrchu yng Nghymru'n rheolaidd, a'r prif gategori a enwyd oedd llaeth. Mae **67%** o boblogaeth Cymru'n dweud eu bod yn prynu llaeth o Gymru'n rheolaidd.

Dim ond traean o siopwyr Cymru sy'n prynu categorïau eraill yn rheolaidd, megis cig oen, llysiau, caws ac wyau. Mae argaeledd yn brif rwystr:

- Roedd **20%** o siopwyr Cymru yn yr arolwg stryd yn dweud nad yw'r cynnyrch maent am ei brynu ar gael. Y prif gategoriâu nad oedd ar gael oedd llysiau, ffrwythau, cig, llaeth, cig oen a chaws.
- Yn yr arolwg ar-lein, roedd **74%** am weld mwy o frandiau bwyd a diod Cymru yn y siopau, er bod nifer yn dweud eu bod yn gallu dod o hyd i gynnyrch bwyd a diod Cymreig yn hwylus.
- Y tu allan i Gymru, roedd siopwyr yn dweud na allent ddod o hyd i gynnyrch bwyd a diod Cymreig yn y siopau ac roedd **29%** am weld mwy o frandiau Cymreig yn y siopau.

Casgliad

Hoffai siopwyr Cymru brynu mwy o gynnyrch Cymreig, ond mae'r cynnyrch sydd ar gael yn gyfyngedig i nifer o bobl.

Mae cyfran helaeth o ddefnyddwyr Cymru'n credu y dylai bwytaï a safleoedd bwyd cyflym gael bwydlenni sy'n rhoi mwy o sylw i ddefnyddio cynhwysion o Gymru.

Y tu allan i Gymru, mae cig oen Cymru'n adnabyddus ac yn cael ei weld fel cynnyrch o safon. I rai siopwyr, mae'n well ganddynt gynnyrch o Gymru dros ystod o gategoriâu, sy'n dangos y byddai gallu dewis cynnyrch Cymreig yn apelio.

Mae cynnyrch Cymreig yn cael ei weld fel cynnyrch naturiol gan siopwyr, ac mae'r brand Cymreig yn eistedd yn gyfforddus ochr yn ochr â brand Prydeinig.

Mae mwyafrif y siopwyr yn gweld cynnyrch Cymreig fel cynnyrch sydd wedi'i wneud yng Nghymru gyda chynhwysion o Gymru. Mae'r prif frandiau Cymreig sy'n gyfarwydd i siopwyr yn cynrychioli 'ansawdd gwych', sydd â 'blas arbennig'. Mae defnyddwyr yn 'hoffi eu bod wedi'u cynhyrchu yng Nghymru'.

Mae'r ymchwil yn rhoi tystiolaeth y gall brandiau Cymreig ddefnyddio "Cymreictod" i wella eu cynnig oddi mewn a thu allan i Gymru.